



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol

Canllawiau i ymarferwyr

Mae'r canllawiau hyn yn ategu'r
canllawiau i ymarferwyr a
gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr
2013 ar y Grant Amddifadedd
Disgyblion 2013–2015



Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol

Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon ar gyfer consortia addysg; awdurdodau lleol ac ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru. Bydd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r undebau athrawon ddiddordeb ynnddi hefyd.

Trosolwg

Dyma ddogfen ganllawiau ar gyfer consortia addysg, awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru ynghylch defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol. Mae'n cyd-fynd â'r ddogfen *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig. Nodir yn y canllawiau hyn sut y gellir defnyddio gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol i wella deilliannau ar gyfer y dysgwyr hyn a sut y gall y Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei ddefnyddio i'w hariannu. Mae'n rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cynnig arweiniad ynghylch y strategaethau i leihau effaith amddifadedd ar gyrrhaeddiad academiaidd. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Amddifadedd ac Ymgysylltu

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: DeprivationandEngagement@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014)



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw'r GAD?	3
Y celfyddydau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol	4
Cwestiynau cyffredin am y GAD a'r celfyddydau	6
Astudiaethau achos	11

Cyflwyniad

Cydnabyddir yn eang mai prin yw'r cyfleoedd i blant o gefndiroedd difreintiedig fwynhau'r profiadau diwylliannol a'r gweithgareddau celfyddydol y mae plant o gefndiroedd cyfoethocach yn eu cymryd yn ganiataol yn gyffredinol, fel ymweliadau teuluol â theatrau, amgueddfeydd ac orielau. Yn aml, nid oes cefnogaeth ariannol ar gael gan eu rhieni/gofalwyr ar gyfer pethau fel hyfforddiant allgyrsiol i ddysgu chwarae offeryn cerdd, neu weithdai perfformio. Yn syml iawn, nid oes ganddynt 'gyfalaf diwylliannol' eu cyfoedion o bosib, ac felly dim ond yn yr ysgol maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

Yn ychwanegol at annog dysgwyr i gymryd rhan yn y celfyddydau fel rhan o addysg eang, mae llawer o ysgolion yn troi hefyd at ymyriadau celfyddydol fel cyfrwng i feithrin hyder, cymhelliant a dyheadau pobl ifanc. Mae'r celfyddydau'n gallu helpu pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio, a'r rhai nad ydynt yn eu gweld eu hunain fel unigolion academaidd, i fynd ati'n frwd i ddysgu. Hefyd gellir eu defnyddio i helpu pobl ifanc i wella eu sgiliau cyfathrebu a'u gallu i weithio mewn timau. Mae prosiectau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn cynnig potensial hefyd i ddatblygu a chryfhau'r perthynas gyda theuluoedd dysgwyr, a thrwy hynny hwyluso cysylltiadau cartref-ysgol ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu argymhellion *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (2013)*¹ ac i ddatblygu ffyrdd i ysgolion weithio gyda'r sectorau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth er mwyn cau'r bwlch rhwng tlodi a chyflawniad, fel yr hyrwyddir yn yr adroddiad *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (2014)*².

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod ysgolion yn deall yn well sut gellir defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol er mwyn cyfoethogi dysgu a gwella dyheadau.

¹ www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/arts-in-education-review/?skip=1&lang=cy

² www.wales.gov.uk/topics/cultureandsport/tackling-poverty-through-culture/?skip=1&lang=cy

Beth yw'r GAD?

Mae'r GAD yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion i'w cefnogi i helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol a wynebir gan ddysgwyr tlotach – rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu llawn potensial. Gall hyn gynnwys dysgwyr eithriadol alluog nad ydynt, oherwydd eu cefndir teuluol, yn cyflawni eu potensial personol llawn, er eu bod yn ymddangos fel pe baent yn gwneud yn dda o gymharu â'u cyfoedion.

Mae'r GAD yn grant sydd â chyfyngiad amser arno, felly mae'n rhaid i ysgolion gynllunio i wneud unrhyw ymyriadau a gefnogir gan y GAD yn rhai cynaliadwy yn y tymor hwy. Dylai hyn gynnwys datblygu staff a datblygu strategaethau ysgol gyfan. Ers mis Medi 2014, mae arolygwyr Estyn yn ystyried sut cefnogir dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i wella eu cyfraddau cyflawni a pha mor effeithiol y defnyddir adnoddau fel y GAD.



Y celfyddydau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol

Cydnabyddir bod darparu cyfleoedd am brofiadau celfyddydol a diwylliannol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gallu gwella agweddau a phresenoldeb, a helpu i leihau effaith amddifadedd. Mae nifer o astudiaethau a dogfennau canllawiau'n cefnogi'r farn hon.

Mae Estyn wedi nodi darparu profiadau celfyddydol a diwylliannol i ddysgwyr dan anfantais fel un o nodweddion allweddol ysgol llwyddiannus.

Mae dysgwyr dan anfantais yn llai tebygol na'u cyfoedion o elwa ar ystod eang o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill ... Nodwedd gyffredin yn y rhan fwyaf o'r ysgolion llwyddiannus yw eu darpariaeth eang i ehangu profiadau eu dysgwyr sydd dan anfantais ... Maent yn mynd ati'n ofalus i arfarnu'r effaith a gaiff gweithgareddau y tu allan i oriau a gweithgareddau cyfoethogi ar eu dysgwyr sydd dan anfantais ac yn cynnwys y dysgwyr hynny a fyddai'n elwa fwyaf ... Mae ysgolion effeithiol yn trefnu gwibdeithiau i leoedd a digwyddiadau na fyddai dysgwyr dan anfantais efallai'n mynd iddynt fel arall, fel amgueddfeydd, a pherfformiadau cerddorfaol a theatrig.

Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion (Estyn, 2012)³

Mae'r Athro David Reynolds wedi tynnu sylw at weithgareddau allgyrsiol ochr yn ochr â hyfforddi cyfoedion fel y ddau brif ymyriad sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar blant dan anfantais. Mae'n cyfeirio at dystiolaeth bod:

... plant mwy difreintiedig yn elwa mwy nag eraill ar y gweithgareddau hyn [allgyrsiol] yn academiaidd a'u bod yn debygol o fod ag agweddau mwy cadarnhaol at yr ysgol ac at addysg os gellir eu helpu i gymryd rhan.

Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllaw byr i ymarferwyr (2013)

³ www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20â%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30,163

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn cydnabod effaith diffyg gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar blant dan anfantais.

Young people from families in poverty participate in fewer organised out-of-school activities than their more affluent peers. Through their lack of participation in out-of-school activities, young people in poverty are denied important learning experiences, which may affect their engagement in the more formal learning in school.

Experiences of Poverty and Educational Disadvantage
(Sefydliad Joseph Rowntree, 2007)



Cwestiynau cyffredin am y GAD a'r celfyddydau

C. Ydw i'n gallu defnyddio'r GAD i gyllido gweithgarwch a gyflwynir gan sefydliad celfyddydol/diwylliannol yn ein hysgol?

Ydych. Cewch ddefnyddio'r GAD i gyllido sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth i gyflwyno gweithgaredd yn eich ysgol, e.e. gweithdy celf, dawn, drama, cerddoriaeth neu ysgrifennu creadigol, ar yr amod eich bod yn gallu dangos sut bydd y gweithgaredd penodol hwn o fudd i'ch dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Os ydych yn bwriadu gwneud hwn yn weithgaredd i ddosbarth cyfan, bydd rhaid i chi ddangos sut mae disgwyl iddo effeithio ar y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn y dosbarth.

Gellir defnyddio'r celfyddydau fel rhan o ystod o fesurau rydych yn eu rhoi ar waith er mwyn cael effaith gadarnhaol. Efallai mai'r nod fydd gwella cyflawniad mewn pwnc penodol neu gefnogi datblygiad sgiliau ar draws y cwricwlwm, fel mewn llythrennedd neu rifedd. Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol eraill mae gwelliannau mewn ymddygiad, cynnydd ym mhresenoldeb dysgwyr neu welliannau i sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu dysgwyr. Fe'ch cynghorir i benderfynu ar y dechrau ar y canlyniadau rydych eu heisiau a sut byddwch yn mesur a ydych wedi eu cyflawni.

Cydnabyddir bod cyfalaf diwylliannol yn gallu effeithio ar lefelau cyflawniad dysgwyr. Felly, byddai gweithgaredd celfyddydol neu ddiwylliannol sy'n ceisio meithrin y cyfalaf diwylliannol hwn yn cael ei ystyried fel canlyniad cadarnhaol.

C. Oes raid defnyddio'r GAD ar gyfer y dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn unig neu a ellir ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau dosbarth cyfan?

Mae'r GAD yn gyllid i helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr tlotach yn eu hwynebu. Dylai'r holl ddysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim elwa o gefnogaeth drwy'r GAD. Mae hefyd yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal. Os ydych yn defnyddio'r GAD i gefnogi gweithgaredd celfyddydol neu ddiwylliannol ar gyfer y dosbarth cyfan neu'r ysgol gyfan, mae'n rhaid i hynny fod ar gyfer gweithgaredd a fydd o fudd penodol i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim neu blant sy'n derbyn gofal. Hefyd bydd rhaid i chi allu dangos yr effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael ar y dysgwyr hynny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

C. Pa fath o weithgareddau neu wasanaethau celfyddydol/diwylliannol fyddwn i'n gallu eu cyllido gyda'r GAD?

Y man cychwyn bob amser yw canolbwyntio ar y gwelliannau rydych yn ceisio eu cyflawni. Gellir defnyddio gweithgareddau neu ymyriadau diwylliannol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar gelf fel rhan o strategaeth i roi sylw i nifer o feysydd lle rydych yn gwybod bod dysgwyr dan anfantais angen cefnogaeth ychwanegol. Wrth gymharu â'u cyfoedion, ar gyfartaledd, mae dysgwyr dan anfantais:

- yn tueddu i fod â sgiliau iaith a chyfathrebu gwannach (*Low income and early cognitive development in the UK*, Sutton Trust, 2010)
- yn fwy tebygol o fod ag anawsterau arwyddocaol mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol (*The long term costs of literacy difficulties*, Every Child a Chance Trust, 2009)
- yn profi anawsterau ymddygiad aml (*Breaking the link between disadvantage and low attainment – Everyone's business*, DCSF, 2009).

Gall gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol wedi'i dargedu, yn yr ysgol ac oddi ar y safle (e.e. gweithdy gydag artist yn eich ysgol neu ymweliad â safle treftadaeth lleol), gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu a llythrennedd a sgiliau rhyngpersonol, a gwella presenoldeb ac ymddygiad. Cofiwch mai nod y GAD yw sicrhau effaith barhaus ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, felly dylai gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol fod yn rhan o raglen ddysgu wedi'i chynllunio ac yn integredig yn eich dull o weithredu ehangach yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gellid defnyddio'r grant hefyd i wella sgiliau staff, e.e. athrawon yn gweithio ochr yn ochr â sefydliad celfyddydol er mwyn sicrhau manteision tymor hwy i ddysgwyr dan anfantais.

Cewch ddefnyddio'r GAD i helpu i wella cyflawniad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig mewn pwnc celfyddydol penodol; neu efallai y byddwch yn dymuno defnyddio profiad celfyddydol neu ddiwylliannol i wella sgiliau ar draws y cwricwlwm, e.e. fel cyfrwng i wella sgiliau llythrennedd. Edrychwch ar adroddiad yr Education Endowment Foundation ar brosiect ysgrifennu ar y cyd â 'phrofiad cofiadwy' am esiampl (*Using Self-Regulation to Improve Writing*, Education Endowment Foundation, 2014⁴). Cafodd y dull hwn o

⁴ www.educationendowmentfoundation.org.uk/projects/using-self-regulation-to-improve-writing/

weithredu effaith fawr a chadarnhaol ar ganlyniadau ysgrifennu'r dysgwyr cyflawniad isel.

Mae Pecyn Adnoddau Addysgu a Dysgu Sutton Trust-EEF (Education Endowment Foundation) yn cynnwys gwybodaeth am 33 o wahanol ymyriadau, gan gynnwys y celfyddydau. Mae'r pecyn adnoddau'n ganllaw defnyddiol, ond bydd raid i ysgolion wneud eu penderfyniadau proffesiynol eu hunain am yr ymyriadau mwyaf priodol i'w defnyddio yn eu cyd-destun penodol.

C. Sut mae dangos a chofnodi canlyniadau?

Defnyddiwch y pedwar cam yma.

1. Adnabod y flaenoriaeth neu'r angen rydych yn dymuno rhoi sylw iddi/iddo.
2. Penderfynu ar y canlyniadau dymunol a sut rydych am geisio eu cyflawni.
3. Penderfynu sut byddwch yn mesur cynnydd a llwyddiant.
4. Arfarnu a chofnodi canlyniadau.

Efallai y byddwch am ystyried defnyddio arweiniad Estyn, *Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i leihau effaith tlogi ar gyrhaeddiad addysgol* (2014)⁵ er mwyn deall beth fydd arolygwyr yn chwilio amdano. Efallai hefyd y byddwch yn teimlo bod canllaw arfarnu ym Mhecyn Adnoddau Sutton Trust⁶ o gymorth. Mae'n rhaid i chi gofnodi'r canlyniadau ar y cynllun datblygu ysgol (CDY).

Bydd y consortia addysg rhanbarthol yn asesu pa mor effeithiol yw cynlluniau ysgol. Ers mis Medi 2014, mae arolygwyr Estyn hefyd yn ystyried sut mae dysgwyr sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim yn cael eu cefnogi i wella eu cyfraddau cyflawniad a pha mor effeithiol mae adnoddau fel y GAD yn cael eu defnyddio.

C. Oes posib defnyddio gweithgareddau celfyddydol allgyrsiol ac ymweliadau oddi ar y safle gan ddefnyddio'r GAD?

Oes. Mae gweithgareddau cyfoethogi allgyrsiol a thu allan i oriau'n fanteisiol iawn i blant dan anfantais nad ydynt yn cael y cyfleoedd hyn oni bai eu bod yn cael eu trefnu gan yr ysgol (gweler argymhelliad

⁵ www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-atodol

⁶ www.educationendowmentfoundation.org.uk/library/diy-evaluation-guide

Estyn ar dudalen 4). Gellir defnyddio'r GAD i gefnogi ymweliadau diwylliannol neu weithgareddau allgyrsiol, yn amodol ar y canlynol:

- mae'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o ddull ysgol gyfan strategol o fynd i'r afael ag anfantais.

Y gweithgareddau sydd fwyaf buddiol yw'r rhai sy'n rhan o raglen ddysgu wedi'i chynllunio, yn hytrach nag un gweithgaredd unigol.

C. Ydi'r GAD yn cael cyllido hyfforddiant arbenigol neu offer ar gyfer celfyddyd benodol, e.e. hyfforddiant i chwarae offeryn cerdd neu brynu offerynnau cerdd?

Mae'n rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o'r cyfyngiad amser sy'n berthnasol i'r GAD, a'r angen am gynllunio darpariaeth sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Felly, er enghraifft, gall ysgolion ystyried defnyddio'r GAD er mwyn creu llyfrgell o adnoddau ar gyfer y celfyddydau creadigol a pherfformio a sicrhau bod y rhain ar gael i ddysgwyr dan anfantais. Caiff ysgolion ddefnyddio'r GAD ar sail achos wrth achos i helpu dysgwyr unigol o deuluoedd incwm isel i ddilyn ffurfiau penodol ar gelf, e.e. cael hyfforddiant i chwarae offeryn cerdd, os mai pwrpas y cyllid yw gwella cyflawniad academaidd yn fwy cyffredinol.

C. Fe hoffwn i holi sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth am ddarparu gweithgaredd yn fy ysgol, ond dydw i ddim yn gwybod lle mae dechrau. At bwy gallaf droi i gael gwybod beth sydd ar gael?

Fel ymateb i argymhellion yr *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013), bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol yn 2015. Bydd hwn yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc brofi'r celfyddydau, a gweithio gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Bydd porthol addysg creadigol a diwylliannol newydd ar Hwb yn darparu manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y sector celfyddydau, yn ogystal â manylion am eu 'darpariaeth' addysgol.

Yn y cyfamser, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae cysylltu â sefydliadau yn y sector celfyddydau a diwylliant, cysylltwch â Chyngor Celfyddydau Cymru⁷, sy'n cyllido sefydliadau sy'n gweithio ar lefel genedlaethol a lleol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar gelf. Ymhlith y cysylltiadau defnyddiol eraill mae Amgueddfa Cymru⁸, Cadw⁹, gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol a lleoliadau celfyddydol/diwylliannol yn eich ardal leol chi.

⁷ www.celfcymru.org.uk

⁸ www.amgueddfacymru.ac.uk

⁹ www.cadw.cymru.gov.uk

Astudiaethau achos

Astudiaeth achos 1: Dawns yn newid agweddau yn Ysgol Uwchradd Willows

Yn Ysgol Uwchradd Willows yng Nghaerdydd, roedd Joe Sage yn dysgu addysg gorfforol i grŵp heriol iawn o ieuencid Blwyddyn 9. Mae bron i ddwy ran o dair o'r dysgwyr sy'n mynychu Willows yn byw yn yr 20 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan fwy na 40 y cant o'r dysgwyr hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd gan lawer o'r bechgyn yr oedd Joe yn eu dysgu broblemau emosiynol a chymdeithasol.



Er mwyn ceisio gwella ymddygiad y bechgyn a'u hagwedd tuag at yr ysgol, ymunodd Willows ag ysgolion eraill yng Nghaerdydd i weithio gyda Rubicon Dance fel rhan o'u Prosiect Dawns i Fechgyn (rhan o'r rhaglen AGChY – Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol – a gyflwynir gan Chwaraeon Cymru).

Cydweithiodd Rubicon Dance gyda Joe i gynllunio rhaglen wyth wythnos yn benodol ar gyfer anghenion ei ddosbarth. Roedd gan Joe ddiddordeb mewn edrych ar sut gallai rhaglenni dawns fod o fudd i'w ddysgwyr, yn enwedig o ran eu cynnwys mewn addysg gorfforol a gwella eu hymddygiad.

Gweithiodd y sefydliad dawns yn yr ysgol, gan gyflwyno'r bechgyn i amrywiaeth o syniadau a symudiadau. Bu'r bechgyn yn gweithio'n unigol ac mewn grwpiau er mwyn edrych ar symudiadau dawns newydd, fel rhedeg rhydd a parkour. Roedd y rhain yn genres dawns yr oedd y bechgyn yn gyfarwydd â hwy gan eu bod i'w gweld mewn ffilmiau/ar y teledu ac yn cael eu derbyn yn eang gan fechgyn o bob oedran.

Wedi sawl gwrs, canfu Joe newid mawr mewn agwedd a phresenoldeb. Roedd y bechgyn yn llawn cymhelliant ac yn teimlo bod ganddynt fwy o lais a rheolaeth, am nad oedd y gwersi wedi'u cynllunio'n rhy fanwl. Roeddent yn cael cyfle i fod yn greadigol. Roedd rhedeg rhydd yn annog parch at ei gilydd, cymryd tro, a bod yn ymwybodol o'i gilydd wrth fwynhau rhyddid symudiad a oedd yn naturiol i fechgyn. Roedd bechgyn o bob lefel ffitrwydd a maint yn gallu cymryd rhan a chyfrannu at y sesiynau. Dywedodd y bechgyn mai'r sesiynau gyda'r cwmni oedd 'rhai o'r gwersi addysg gorfforol gorau rydyn ni wedi'u cael erioed yn yr ysgol'. Dros amser, sylwodd Joe ar welliant yn eu hymddygiad, eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu. Hefyd, roedd mwy o barch i'w weld rhwng pawb a phan oedd y bechgyn yn herio'i gilydd, roedd hynny'n cael ei wneud mewn ffordd adeiladol. Roedd y bechgyn yn llawer mwy parod i ddysgu a chydweithio â'u cyfoedion.

Dyma rai o'r sgiliau a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect:

- sgiliau cyfathrebu (gweithio mewn parau, trafod symudiadau, cyfresi)
- gwaith partner/tîm
- gwneud penderfyniadau, sgiliau datrys problemau.

Hefyd, aeth y bechgyn a oedd yn rhan o'r prosiect i berfformiad dawns mewn canolfan gelfyddydol leol. Nid oedd 95 y cant ohonynt wedi bod mewn theatr erioed o'r blaen.

Erbyn diwedd y prosiect, roedd y dosbarth cyfan yn ymuno ac yn cyrraedd yn eu cit, a chofnododd yr ysgol well ymgysylltu a phresenoldeb. Mae effaith cymryd rhan ym Mhrosiect Dawns i Fechgyn wedi ysgogi'r ysgol i newid cwricwlwm addysg gorfforol y bechgyn yn yr ysgol – gyda dawns yn weithgaredd rheolaidd erbyn hyn, e.e. mae bechgyn Blwyddyn 9 yn gwneud tymor o redeg rhydd yn awr a chyflwynir bechgyn Blwyddyn 7 i'r haka.

Astudiaeth achos 2: Cymell drwy gerddoriaeth yn Rhondda Cynon Taf

Mae Megan yn mynychu ysgol uwchradd yng Nghymoedd De Cymru. Cafodd ei rhoi yng ngofal ei mamgu ar ochr ei mam yn bedair oed ac mae wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal ers hynny. Roedd yn cael anhawster gyda sgiliau darllen a mathemateg yn ei blynyddoedd cynnar yn yr ysgol. Ar ddiwedd Blwyddyn 2, cafodd Lefel 2 mewn mathemateg a Saesneg. Daliodd ati i wneud cynnydd araf yng Nghyfnod Allweddol 2. Pan oedd yn naw oed a phum mis, ei hoedran darllen oedd wyth oed a phum mis.



Cafodd ei hannog gan ei athrawes i ddechrau cael gwersi ffidil yn yr ysgol hanner ffordd drwy Flwyddyn 5, fel cyfrwng i wella ei hyder a'i gallu i ganolbwyntio. Wrth iddi fagu hyder, fe'i gwelwyd yn gweithio'n well yn y dosbarth hefyd. Pan gafodd ei phrofi'n 10 oed a phedwar mis, roedd ei hoedran darllen yn 11 oed a dau fis.

Ym Mlwyddyn 6, datblygodd fwy o hyder mewn mathemateg a chododd ei sgôr safonol o 80 i 96. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cafodd Lefel 5 mewn Saesneg a Lefel 4 mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Dyweddodd ei hathro dosbarth bod Megan wedi blodeuo ym Mlwyddyn 6: "Daeth yn fwy hyderus wrth fynd ati i ddatrys problemau ac roedd yn fodlon rhoi cynnig ar wahanol ddatrysiadau heb boeni a gofidio pan oedd yn cael pethau'n anghywir. Gwelsom fod ganddi fwy i siarad amdano, yn enwedig ar ôl i ni ddatblygu ein cerddorfa ein hunain yn yr ysgol. Roedd Megan yn teimlo'n rhan o sefydliad yr oedd hi'n gallu gwneud cyfraniad enfawr ato."

Cyn iddi symud i'r ysgol uwchradd, prynodd ei hysgol gynradd ffidil iddi, er mwyn iddi allu dal ati i astudio. Mae gan Megan gylch o ffrindiau tebyg iddi hi ei hun yn awr o ysgolion ledled yr ardal ac mae'n gallu rhannu ei thalent gerddorol gyda nhw. Mae wedi siarad am ei huchelgais i ddilyn gyrfa ym myd cerddoriaeth ac mae'n parhau i fwynhau'r pwnc a rhagori ynddo.

Yn gyffredinol, nid yw hyfforddiant cerddorol neu brynu offeryn yn ffordd gymwys yn awtomatig o wario'r GAD, oni bai fod yr hyfforddiant yn rhan o raglen wedi'i chynllunio i wella cyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm. Yn yr achos hwn, roedd yr ysgol wedi datgan yn glir y canlyniadau yr oedd am eu sicrhau ar gyfer dysgwr penodol a oedd yn derbyn gofal. Penderfynodd mai gwersi cerddoriaeth oedd yr ymyriad mwyaf priodol a llwyddodd i ddangos y canlyniadau hyn drwy brofi.

Astudiaeth achos 3: Treftadaeth yn ysbrydoli ysgrifennu estynedig yn Ysgol Pen-y-Bryn

Mae Ysgol Pen-y-Bryn yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhentref Bethesda, Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddifreintiedig yn economaidd ac mae oddeutu 20 y cant o ddysgwyr yr ysgol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn ceisio creu cyfleoedd ysgogol i ddatblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Y pwnc ar gyfer y tymor oedd 'Y Chwarel yng Nghymru' a threfnodd yr ysgol i ddysgwyr Blwyddyn 6 ymweld â'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis er mwyn ysbrydoli'r dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau mewn creu darn estynedig o waith creadigol. Mae gan yr ysgol bolisi o gefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn ymweliadau oddi ar y safle, a sicrhau cyfleoedd i bawb fel cyfrwng i gau'r bwlch rhwng grwpiau o ddysgwyr. Roedd y mynediad i'r amgueddfa am ddim ond cynorthwyodd yr ysgol gyda'r costau teithio, er mwyn sicrhau bod holl ddysgwyr Blwyddyn 6 yn cael cyfle i ymweld. Mae'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn un o'r saith amgueddfa sy'n perthyn i deulu Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru. Dyma'r darparwr dysgu mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru. Mae'r amgueddfa'n codi ffi ar grwpiau ysgol am rai sesiynau a hwylusir, ond fel rhan o'i hymrwymiad i raglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru, nid oes ffi i'r ysgolion hynny sydd â mwy nag 20 y cant o'u dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.



Yn ystod yr ymweliad, clywodd y dysgwyr am waith peryglus gweithwyr y chwarel ar wyneb y graig a buont yn nhai bach y chwarelwyr i gael blas ar fywyd dros ganrif yn ôl.

Casglodd yr ysgol dystiolaeth i ddangos effaith yr ymweliad ei hun a'r gweithgareddau dilynol ar lythrennedd y dysgwyr. Cynhaliodd yr athro dosbarth asesiad o'r dysgwyr is eu gallu a'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim. Dangosodd bod ganddynt fwy o hyder mewn ysgrifennu estynedig a mwy o allu i ddefnyddio idiomau a chymariaethau yn eu gwaith. Dywedodd yr athro dosbarth:

Prin iawn fyddai'r cyfleoedd y tu allan i'r ysgol i'r dysgwyr hyn ymweld â'r lleoliadau diwylliannol hyn. Fel rheol, byddai'r grŵp yma o ddysgwyr yn ei chael yn anodd defnyddio profiadau allanol, ond mae'r profiad uniongyrchol o ymweld â'r amgueddfa wedi cael effaith gadarnhaol yn sicr ar eu gwaith. Mae'r profiad hwn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol niferus sy'n cysylltu â gallu'r dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth am agweddau penodol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Yn y dyfodol, bydd modd i mi adeiladu ar y profiadau hyn i ddyfnhau eu dealltwriaeth.

Nodwyd hefyd bod diddordeb y bechgyn yn elfennau ymarferol yr ymweliad wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol: 'Roeddent eisiau cymryd rhan mewn ysgrifennu estynedig, gan fod ganddynt brofiad o fywyd go iawn i ysgrifennu amdano.'